GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

**Rhif Eitem Agenda: 3.1.1**

**Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a gynhaliwyd ddydd Iau 24 Tachwedd 2022 fel Cyfarfod Rhithiol a Ddarlledwyd yn Fyw drwy Microsoft Teams**

**Aelodau'n Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Emrys Elias | Cadeirydd |
| Paul Mears | Prif Weithredwr |
| Jayne Sadgrove | Is-gadeirydd / Aelod Annibynnol |
| Patsy Roseblade | Aelod Annibynnol |
| Ian Wells | Aelod Annibynnol |
| Mel Jehu | Aelod Annibynnol |
| Nicola Milligan | Aelod Annibynnol |
| James Hehir | Aelod Annibynnol |
| Carolyn Donoghue | Aelod Annibynnol |
| Lynda Thomas | Aelod Annibynnol |
| Dilys Jouvenat | Aelod Annibynnol |
| Geraint Hopkins | Aelod Annibynnol |
| Linda Prosser | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid |
| Gethin Hughes | Prif Swyddog Gweithredu |
| Kelechi Nnoaham | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus |
| Sally May | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |
| Hywel Daniel | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl |
| Anne Morris | Aelod Cysylltiol |
| Sally Bolt | Aelod Cysylltiol |
| Lisa Curtis-Jones | Aelod Cysylltiol |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Debbie Bennion | Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio |
| Sallie Davies | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol |
| Stuart Morris | Cyfarwyddwr Digidol |
| Cally Hamblyn | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg |
| Christopher Waters | Nyrs Eiddilwch a Chyflyrau Cronig (yn rhannol) |
| Melissa Duffy | Nyrs Eiddilwch a Chyflyrau Cronig (yn rhannol) |
| Suzanne Hardacre | Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth (yn rhannol) |
| Wendy Penrhyn-Jones | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Busnes y Bwrdd |
| Stephanie Muir | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Pryderon a Hawliadau |
| Paul Dalton | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Emma Walters | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth) |

Heb eu cadarnhau

**Eitem ar yr Agenda**

**1 MATERION RHAGARWEINIOL**

**1.1 Croeso a Chyflwyniadau**

**Croesawodd** y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y rheini sy'n ymuno am y tro cyntaf, y rheini sy'n arsylwi a chydweithwyr sy'n ymuno ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. **Nododd** y Cadeirydd fformat y cyfarfod ar ei ffurf rithiol hefyd.

**1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth:
- Greg Dix, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
- Dom Hurford, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
- Lauren Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd
- Daniel Price, Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg

**1.3 Datgan Buddiannau**
Gwnaed Datganiad o Fudd cyn y cyfarfod gan C Donoghue, Aelod Annibynnol lle dywedodd ei bod yn dymuno gwneud datganiad yn erbyn eitem agenda 5.2, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan ei bod yn Gadeirydd Canolfan Arloesi Arbenigol Cymru, y cyfeirir ati yn yr adroddiad.

**2 GWRANDO A DYSGU AR Y CYD**

**2.1 Stori'r Claf**

Rhannodd C Waters a M Duffy, Nyrsys Eiddilwch a Chyflyrau Cronig gyflwyniad yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Eiddilwch.

Diolchodd K Nnoaham i'r Tîm am rannu'r cyflwyniad ac ychwanegodd ei fod wrth ei fodd o weld y gweithgarwch yn cael ei gynnal ac awgrymodd fod angen ystyried ymhellach sut y gellid ehangu gwaith y Tîm i gefnogi ymhellach fywydau cleifion sy'n byw gyda chyflyrau cronig.

Croesawodd P Mears y cyflwyniad a'r astudiaeth achos a rannwyd a dywedodd ei fod yn falch o glywed am y gwaith ehangach sy'n cael ei wneud gan y Tîm. Ychwanegodd P Mears fod y gweithgarwch hwn yn cyd-fynd yn agos â'r gwaith parhaus i wella gofal y tu allan i'r ysbyty a gofynnodd am eglurder ynghylch beth oedd y rhwystrau i'r Tîm ehangu'r gwasanaeth ar draws y sefydliad cyfan. Dywedodd M Duffy fod y Tîm yn fach, gyda dim ond dau aelod o staff a dywedodd mai dim ond nifer penodol o gleifion y gallent eu gweld. Nododd

yr aelodau fod y Tîm yn ceisio gwneud atgyfeiriadau uniongyrchol a llwybrau i wasanaethau eraill, gyda'r Tîm yn gorfod rhoi sicrwydd i rai gwasanaethau bod prosesau a llwybrau ar waith i gyfeirio cleifion sydd angen cymorth ychwanegol i'r ardaloedd priodol.

Dywedodd K Nnoaham fod angen dyrannu adnoddau i'r ardaloedd a fydd yn sicrhau'r canlyniad gorau ac ychwanegodd y byddai angen mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau fel hyn wrth symud ymlaen. Dywedodd M Duffy eu bod yn teimlo'n dawel eu meddwl ynghylch y trafodaethau a gynhaliwyd heddiw.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Tîm am rannu'r cyflwyniad ac am rannu'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei gyflawni gan y Tîm.

Penderfyniad: **NODWYD** Stori'r Claf.

**3 AGENDA CYDSYNIO**

**3.1 AR GYFER CYMERADWYO**

**3.1.1 Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd heb eu cadarnhau a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion.

**3.1.2 Cofnodion Cyfarfod Mewn Pwyllgor y Bwrdd heb eu cadarnhau a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion.

**3.1.3 Adroddiad y Cadeirydd – Cadarnhau'r Sêl Gyffredin a Chadarnhau Cam Gweithredu'r Cadeirydd**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

**3.1.4 Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiadau.

**3.1.5 Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

**3.2 ER GWYBODAETH**

**3.2.1 Cofnod Camau Gweithredu**

Penderfyniad: **NODWYD** y Cofnod Camau Gweithredu.

**3.2.2 Cylch Busnes Blynyddol y Bwrdd**

Heb eu Cadarnhau

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**3.2.3 Blaenraglen Waith y Bwrdd**

Penderfyniad: **NODWYD** Blaenraglen Waith y Bwrdd.

**3.2.4 Adroddiadau'r Pwyllgor ar y Prif Bwyntiau**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiadau.

**3.2.5 Adroddiadau'r Cyd-bwyllgor ar y Prif Bwyntiau**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiadau.

**3.2.6 Adroddiad Blynyddol ar Addysg Glinigol**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**3.2.7 Adroddiad Blynyddol Safonau Iechyd a Gofal**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**4. Y BRIF AGENDA**

**4.1 Materion yn Codi nad ydynt yn cael eu hystyried yn y Cofnod Camau Gweithredu**

Doedd dim materion eraill yn codi.

**5. LLYWODRAETHU INTEGREDIG A SICRWYDD**

**5.1 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd P Mears yr adroddiad gan dynnu sylw'r Bwrdd at y materion allweddol.

Rhoddodd P Mears ddiweddariad ar Arweinyddiaeth y Tîm Gweithredol a dywedodd fod G Gallety, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, bellach wedi ymuno â Thîm Rhaglen Gweithredu Gweithredol GIG Llywodraeth Cymru. Diolchodd P Mears i G Gallety am ei chyfraniad sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.

Diolchodd P Mears hefyd i K Nnoaham, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, a fyddai'n gadael y Bwrdd Iechyd i ymuno â rhaglenni iechyd rhyngwladol blaenllaw ar gyfer Shell yn Llundain. Dywedodd P Mears fod K Nnoaham wedi bod yn eiriolwr gwych dros Iechyd y Cyhoedd a'i fod wedi gwneud cyfraniad sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf yn ystod yr ymateb

Heb eu cadarnhau

i bandemig Covid-19. Estynnodd P Mears ei ddymuniadau gorau i K Noraham ar gyfer y dyfodol a dywedodd y byddai'n gadael gwaddol i'r sefydliad ganolbwyntio arni.

Diolchodd y Cadeirydd i P Mears am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**5.2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

Cyflwynodd C Hamblyn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan dynnu sylw'r Bwrdd at y newidiadau sylweddol i'r Risgiau Strategol yn ystod y cyfnod hwn.

Cyfeiriodd I Wells at Rif Risg 5, Ymgysylltu â'r Gymuned a Phartneriaid a dywedodd nad oedd yn gwbl glir beth oedd y rhesymeg dros leihau'r risg o 16 i 12. Dywedodd K Nnoaham fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol wedi cwblhau asesiad llesiant cynhwysfawr ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar ac ychwanegodd fod y Bwrdd Iechyd yn bartner gweithgar iawn yn y maes hwn. Gofynnodd I Wells i esboniad gael ei gynnwys yn yr adroddiad ynghylch pa sail resymegol/sbardun a arweiniodd at y gostyngiad yn y sgôr ar gyfer y risg hon.

Bu i P Roseblade longyfarch y Tîm am wella Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn barhaus. Mynegodd ei bod yn ofalus wrth gynnwys risgiau sy'n ymwneud â chynllunio Parhad Busnes y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd eu gwneud fel rhan o'i weithgarwch Nodau Strategol. Ychwanegodd P Roseblade ei bod yn cytuno â'r newid yn y canlyniad a'r sgôr effaith i 3 – Adnoddau Cyllid Refeniw.

Diolchodd y Cadeirydd i C Hamblyn am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Cam Gweithredu: Eglurhad i'w gynnwys yn yr adroddiad o'r rhesymeg/sbardun ar gyfer lleihau'r sgôr risg o 16 i 12 mewn perthynas â Risg 5.

**5.3 Adroddiad ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio**

Cyflwynodd D Bennion yr adroddiad a oedd yn dangos sut roedd y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (NSA) ac eglurodd y newidiadau a'r diwygiadau i'r wardiau a'r arbenigeddau rhwng mis Hydref 2021 a mis Medi 2022.

Croesawodd C Donoghue yr adroddiad a dywedodd ei bod yn falch o weld y dull systematig a oedd yn cael ei ddefnyddio. Gofynnodd C Donoghue am eglurder ynghylch sut roedd y pwysau cost yn cael eu rheoli mewn perthynas â'r cynnydd dros dro mewn staffio ac a oedd hwn yn fater parhaus. Dywedodd D Bennion fod y Tîm Nyrsio Corfforaethol yn gwneud darn o waith yn Ysbyty'r

Heb eu cadarnhau

Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg mewn perthynas â lefelau gofal uwch lle maent yn edrych ar ffyrdd o gefnogi cleifion, ac ychwanegodd fod y sefyllfa'n debygol o barhau ar ôl mis Ionawr 2023. Nododd yr aelodau pe bai'r Tîm yn teimlo bod angen cynnydd mwy parhaol mewn staffio, y byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo fel y bo'n briodol.

Mewn ymateb i ymholiad gan C Donoghue ynghylch cysondeb darpariaeth y gwasanaeth lletya, dywedodd D Bennion fod gwahaniaeth ar draws y tri safle ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr Arlwyo i gysoni adnoddau a phennu'r ffordd fwyaf cost effeithiol o ddarparu'r gwasanaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i D Bennion am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**5.4 Adroddiad y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ar y Prif Bwyntiau**

Cyflwynodd M Jehu yr adroddiad gan dynnu sylw at y mater yn yr adran hysbysu/esgoli a oedd yn ymwneud ag Ophthalmoleg Dilynol Heb eu Bwcio, a'r heriau sylweddol a oedd yn bodoli o fewn y Bwrdd Iechyd. Nododd yr aelodau y derbyniwyd adroddiad gweithgarwch manwl gan y Pwyllgor yn amlinellu'r camau gweithredu a'r camau lliniaru a oedd yn cael eu cymryd. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro'r sefyllfa wrth symud ymlaen.

Dywedodd J Sadgrove ei bod hefyd wedi mynychu'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid pan drafodwyd y mater hwn ac ychwanegodd fod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn adolygu agweddau ar niwed o ganlyniad i oedi ac y byddai'n parhau i roi sylw pellach i'r mater hwn o safbwynt Ansawdd a Diogelwch. Dywedodd J Sadgrove y byddai'r Aelodau'n monitro ac yn sicrhau cynnydd wrth symud ymlaen o ystyried lefel y craffu sy'n cael ei wneud.

Dywedodd P Mears fod y sefyllfa'n parhau'n heriol o fewn Offthalmoleg ac ychwanegodd fod Timau Gweithredol yn gweithio'n galed i gynyddu capasiti'r gwasanaeth. Nododd yr aelodau fod gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda Byrddau Iechyd cyfagos i fynd i'r afael ymhellach â heriau capasiti ac i edrych ar ffyrdd o weithio ar y cyd.

Penderfyniad: Diolchodd y Cadeirydd i M Jehu am gyflwyno'r adroddiad.

**NODWYD** yr Adroddiad.

## 6 CYFLAWNI EIN PWRPAS/CYFEIRIAD STRATEGOL

### 6.1 Dangosfwrdd Perfformiad Integredig

#### 6.1.1 Cyflwyniad a Throsolwg

Heb eu cadarnhau

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad gan nodi bod cynnydd pellach yn cael ei wneud mewn perthynas â datblygu'r Cerdyn Sgorio Rheolaeth Weithredol a'r naratif sydd yn yr adroddiad.

Croesawodd J Sadgrove yr adroddiad a datblygiad parhaus y cardiau sgorio a dywedodd ei bod wedi nodi mai dim ond pwyntiau data unigol oedd gan rai o'r cardiau sgorio, er enghraifft, ymgysylltu â staff a sgrinio'r coluddyn, a gofynnodd am eglurder ynghylch a oedd y data ar gael ai peidio ynteu a oedd y peirianwaith ar waith eto ar gyfer mewnbynnu data i'r siartiau. Cadarnhaodd L Prosser fod ymgysylltiad staff yn cael ei gynnal bob blwyddyn felly dim ond un pwynt data fyddai ar gael a chytunodd i geisio eglurder mewn perthynas â data sgrinio'r coluddyn y tu allan i'r cyfarfod.

Dywedodd H Daniel, mewn perthynas â'r data ar ymgysylltu â staff, o 2020, y dylid nodi bod y Bwrdd Iechyd yn disgwyl i arolwg Staff GIG Cymru gael ei gynnal bob blwyddyn, ond nad oedd hynny wedi digwydd. Nododd yr aelodau fod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wrthi'n caffael system newydd i gynnal arolygon staff ac awgrymodd y gallai fod yn werth tynnu'r data hwn o'r adroddiad nes bod rhywfaint o ddata ar gael y gallai'r Bwrdd Iechyd ei adolygu'n gymharol. Dywedodd J Sadgrove y byddai'n fodlon ar y dull hwn ac awgrymodd y gallai fod yn fuddiol cynnal adolygiad o'r holl setiau data a gynhwysir yn yr adroddiad i weld a oedd meysydd eraill lle nad oedd data rheolaidd ar gael.

Dywedodd P Mears fod yr adroddiad yn dal i gael ei ddatblygu a chroesawyd adborth gan aelodau'r Bwrdd ar yr hyn yr oedd angen ei gynnwys yn yr adroddiad. Cytunwyd y dylid cynnal trafodaeth bellach mewn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol mewn perthynas â nifer y metrigau a'r ffordd orau o'u cyflwyno yn yr adroddiad.

Croesawodd I Wells yr adroddiad a'r graffiau a oedd wedi'u cynnwys a oedd yn dangos tueddiadau a datblygiadau. Cyfeiriodd I Wells yn benodol at y siartiau sy'n cynnwys data ar yr Ymateb Brys i alwadau coch a throsglwyddo cleifion Ambiwlans o fewn 1 awr, a oedd ill dau'n dangos bod y sefyllfa'n dirywio, gan gwestiynu a fyddai'r data'n gwella unwaith y byddai'r mesurau'n cael eu rhoi ar waith. Dywedodd G Hughes y byddai'n ymateb i'r mater hwn wrth gyflwyno'r adroddiad ar Wella Gofal Brys.

Cyfeiriodd P Roseblade at y graffiau ar dudalen 11 yr adroddiad mewn perthynas â digwyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn genedlaethol ac yn lleol a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r echelinau 'Y' yr un fath fel y gallai Aelodau weld y gwahaniaethau ar y siartiau. Dywedodd L Prosser y gellid cynnal adolygiad o hyn i benderfynu a ellid cyflwyno'r siartiau'n fwy cyffredin.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan P Roseblade ynghylch faint o staff oedd wedi cael eu brechiadau rhag y ffliw eleni, dywedodd K Nnoaham fod y rhai oedd wedi cael y brechiad yn y Bwrdd Iechyd ar 17 Tachwedd 2022 yn 42.6%, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 32.85%. Nododd yr aelodau fod gwaith yn parhau i sbarduno cynnydd yn y niferoedd sy'n cael eu brechu.

Heb eu cadarnhau

Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd gan P Roseblade mewn perthynas â rhai o'r Siartiau Rheoli Prosesau Ystadegol yn yr adroddiad, lle'r oedd yn ymddangos bod y ffiniau'n newid sawl gwaith mewn perthynas â therfynau uchaf ac isaf, dywedodd L Prosser y byddai'n croesawu trafodaeth gyda P Roseblade ar y mater hwn y tu allan i'r cyfarfod.

Soniodd P Roseblade am y wybodaeth am ryddhau coch yn yr adroddiad a oedd yn anodd iawn ei ddarllen, yn enwedig yn Ysbyty Tywysoges Cymru, a dywedodd fod trafodaethau manwl wedi cael eu cynnal ac y byddent yn parhau i gael eu cynnal yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar y mater hwn. Cadarnhaodd D Bennion fod digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu trafod bob wythnos yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol a bod gwahaniaethau mawr yn cael eu gwneud i unrhyw dueddiadau a chlystyrau a nodwyd.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan N Milligan mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â chyfweliadau ymadael, cadarnhaodd H Daniel y byddai'r broses newydd ar gyfer cyfweliadau ymadael yn cael ei hail-lansio ddechrau mis Ionawr 2023 ac ychwanegodd y dylai'r broses newydd gael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn y maes hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan M Jegu ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru yn debygol o ddilyn Llywodraeth y DU wrth ystyried nifer y targedau y mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd eu cyflawni, dywedodd P Mears, yn dilyn cyfarfod diweddar rhwng Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr â'r Gweinidog Iechyd, nad oedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dull gweithredu mewn perthynas â lleihau rhai o'r targedau. Awgrymodd P Mears y gallai fod yn ddefnyddiol cael trafodaeth mewn sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol mewn perthynas â datblygu metrigau lleol penodol a oedd yn fwy ymatebol i'n cymunedau a sut y gellid mesur canlyniadau o safbwynt Bwrdd Iechyd. Cadarnhawyd hyn fel dull cadarnhaol o fesur a sicrhau cynnydd.

| | |
|---|---|
| Cam Gweithredu: | Gofynnwyd am eglurder y tu allan i'r cyfarfod ynghylch Data Sgrinio'r Coluddyn er mwyn penderfynu pam mai dim ond un pwynt data oedd wedi'i gynnwys. |
| Cam Gweithredu: | Dylid adolygu'r siartiau digwyddiadau y gellir adrodd arnynt yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn penderfynu a fyddai modd cyflwyno'r siartiau'n fwy cyffredin. |
| Cam Gweithredu: | Trafodaeth i'w chynnal gyda P Roseblade y tu allan i'r cyfarfod mewn perthynas â Siartiau Rheoli Prosesau Ystadegol a gynhwysir yn yr adroddiad lle'r oedd yn ymddangos bod y ffiniau'n newid sawl gwaith mewn perthynas â therfynau uchaf ac isaf. |
| Cam Gweithredu: | Trafodaeth i'w chynnal mewn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol mewn perthynas â'r posibilrwydd o ddatblygu metrigau lleol a fyddai'n fwy ymatebol i gymunedau lleol y Bwrdd Iechyd. |



Heb eu Cadarnhau

**Perfformiad Cyflawni Gweithredol**

**6.1.2** Cyflwynodd G Hughes ddiweddariad i'r Aelodau ar y materion allweddol mewn perthynas â Pherfformiad Cyflawni Gweithredol.

Dywedodd L Thomas fod y sefyllfa'n ddifrifol mewn perthynas â pherfformiad canser ac awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Bwrdd gael Ymchwiliad Trylwyr i Berfformiad Canser a fyddai'n amlinellu'r meysydd clefyd mwyaf arwyddocaol. Awgrymodd P Mears y gallai hyn fod yn destun sesiwn Briffio ar gyfer y Bwrdd yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan L Thomas ynghylch a fyddai'r Bwrdd Iechyd yn gallu cyrraedd y targed perfformiad canser o 70% erbyn diwedd y flwyddyn, a oedd y Bwrdd Iechyd yn gweld cynnydd yn nifer y cleifion a oedd yn cael diagnosis hwyr o ganser ac a oedd gan y Bwrdd Iechyd yr adnoddau i ymdopi â'r niferoedd ychwanegol o gleifion, cadarnhaodd G Hughes fod cleifion yng Nghwm Taf Morgannwg yn cyflwyno gyda chlefyd yn hwyrach o'i gymharu â gweddill Cymru a'r DU. Dywedodd G Hughes fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd ei darged o 70% ac ychwanegodd, er bod y mwyafrif helaeth o gleifion a oedd yn cyflwyno heb ganser, bod angen gwneud gwelliannau wrth wneud diagnosis yn gyflym. Nododd yr aelodau fod perfformiad delweddu'r Bwrdd Iechyd wedi gwella a bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu gwasanaeth biopsi dan arweiniad Nyrsys. Dywedodd G Hughes fod y ddau faes pryder sylweddol yn ymwneud ag Wroleg a GI Isaf. Nododd yr aelodau fod rhai gwelliannau bellach yn cael eu gweld ym maes Wroleg o ganlyniad i'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â llwybrau. Mewn perthynas â GI Isaf, roedd gwaith yn cael ei wneud gyda Sgrinio Coluddion Cymru i sicrhau bod cleifion yn cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd yn gynt.

Mewn perthynas â Gofal Dewisol a Diagnosteg, dywedodd P Mears fod gwaith yn cael ei wneud gyda Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Aneurin Bevan i edrych ar gyfleoedd i greu mwy o gapasiti. Nododd yr aelodau fod trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Chlinigwyr sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r heriau.

Diolchodd y Cadeirydd i G Hughes am ddarparu'r diweddariad.

Penderfyniad: **NODWYD** Adran Perfformiad Cyflawni Gweithredol yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Trafodaeth i'w chynnal mewn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol mewn perthynas â Pherfformiad Canser.

**6.1.3** **Perfformiad Ansawdd**

Cyflwynodd D Bennion, S Davies a S Muir ddiweddariad ar berfformiad ansawdd gan dynnu sylw at feysydd gweithgarwch allweddol yn ystod y cyfnod mewn perthynas â'u portffolios hwy.

Penderfyniad: **NODWYD** Adran Perfformiad Ansawdd yr adroddiad.

Heb eu Cadarnhau

**6.1.4 Perfformiad y Gweithlu**

Cyflwynodd H Daniel yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif negeseuon mewn perthynas â pherfformiad y gweithlu a dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud i bennu'r rhesymau y tu ôl i'r cynnydd mewn trosiant mewn nifer o feysydd grwpiau staffio, yn enwedig yn y gweithlu nyrsio a meddygol. Cytunodd H Daniel i roi adborth i'r Aelodau unwaith yr oedd y dadansoddiad wedi'i wneud, yn enwedig mewn perthynas â throsiant staff yn y grŵp oedran 26-30.

Penderfyniad: **NODWYD** Adran Perfformiad Gweithlu yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Dylid rhoi adborth i Aelodau'r Bwrdd ar ôl cynnal y dadansoddiad er mwyn canfod y rhesymau y tu ôl i drosiant staff uchel mewn nifer o feysydd grwpiau staffio.

**6.1.5 Perfformiad Ariannol**

Cyflwynodd S Mai ddiweddariad i'r Aelodau a dywedodd fod gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r cais am Gymorth Ariannol Strategol gan Lywodraeth Cymru i dalu am y gofyniad arian parod sy'n deillio o ddiffyg rhagamcanol o £26.5m yn y Cynllun Craidd. Nododd yr aelodau y byddai cais yn cael ei wneud am hyn drwy lythyr Swyddog Atebol i'w gyflwyno erbyn 8 Rhagfyr 2022. Dywedwyd wrth yr aelodau bod proses ar wahân gyda Llywodraeth Cymru i ymdrin â symudiad mewn balansau gweithio, fel rhyddhau croniadau gwyliau blynyddol a symudiadau mantolen eraill. Bydd camau lliniaru'n parhau i gael eu rhoi ar waith lle bo'n bosibl i leihau gofynion cymorth ariannol y Byrddau Iechyd, gan gynnwys adfer incwm yn amserol fel ad-daliadau Cronfa Risg Cymru.

Nododd yr aelodau fod y Bwrdd Iechyd yn cadw ei ddiffyg craidd o £17.8m a bod sefyllfa Mis 6 wedi cael ei hadolygu'n fanwl yn y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid.

Dywedodd P Roseblade y byddai'n fodlon cefnogi'r cais am Gymorth Ariannol Strategol gan Lywodraeth Cymru a chroesawodd y gwelliannau yn yr adroddiad sy'n darparu safbwynt clir a llawn gwybodaeth i Aelodau'r Bwrdd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.
**CYMERADWYODD** y Bwrdd y cais am Gymorth Ariannol Strategol gan Lywodraeth Cymru

**6.2 Rhaglen Gyfalaf**

Cyflwynodd S May yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad Mis 6 i'r Bwrdd ar y terfyn adnoddau cyfalaf a'r gwariant cyfalaf gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr holl brosiectau cyfalaf mawr cyfredol.

Heb eu cadarnhau

Llongyfarchodd P Roseblade y Tîm ar wario 48% o'r dyraniad cyfalaf a oedd yn gyflawniad sylweddol a dywedodd wrth y Bwrdd fod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn parhau i dderbyn adroddiadau archwilio cadarnhaol mewn perthynas â Chynllun Llawr Cyntaf Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Diolchodd I Wells i S May am y diweddariad cynhwysfawr a gofynnodd am ddiweddariad yn erbyn cynllun Canolfan Iechyd a Lles Pen-y-bont ar Ogwr (Sunnyside) a oedd i bob golwg yn destun oedi o ganlyniad i faterion yn ymwneud â phenodi contractwr. Dywedodd S May fod y partner arweiniol wrthi'n gweithio ar benodi contractwr newydd a oedd wedi bod yn heriol o ganlyniad i wendidau yn y farchnad adeiladu. Nododd yr aelodau fod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud yn awr.

Tynnodd I Wells sylw at y Cynllun Theatrau yn Ysbyty Tywysoges Cymru gan gyfeirio at bum opsiwn gwahanol a dywedodd ei bod yn ymddangos bod oedi wedi bod wrth lunio'r opsiynau terfynol. Dywedodd S May, er bod cynllun a ffafrir yn bodoli, fod y costau'n fwy o lawer na'r cyllid a oedd wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd L Prosser y gobeithid y byddai cynllun a fyddai'n cael ei ffafrio yn cael ei gwblhau yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Dywedodd M Jehu fod llawer iawn o waith wedi'i wneud fel y nodwyd yn yr adroddiad ac awgrymodd y gallai fod yn ddefnyddiol i Aelodau'r Bwrdd gael taith o amgylch safle Ysbyty'r Tywysog Siarl i weld y gwaith a oedd wedi'i wneud. Dywedwyd wrth yr aelodau bod ymweliad â'r safle eisoes wedi'i drefnu ar gyfer Aelodau'r Bwrdd yn y flwyddyn newydd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**7.0 CYFLAWNI EIN CYNLLUNIAU ADFER/GWELLA**

**7.1 Gwella Gofal Brys**

Cyflwynodd G Hughes yr adroddiad a dywedodd fod gan y rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng bedwar maes ffocws allweddol a oedd yn cynnwys Osgoi Mynediad; Drws Blaen Integredig; Llif a Rhyddhau Acíwt o Ysbytai; a Rhyddhau Integredig. Nododd yr aelodau fod gwaith yn cael ei wneud i gyflwyno un broses safonol ar gyfer dadlwytho ambiwlansys ar draws y Bwrdd Iechyd a nododd fod rhai cleifion sâl iawn yn dod drwy'r Adrannau Brys yn uniongyrchol.

Diolchodd y Cadeirydd i G Hughes am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**7.2 Adfer Gofal wedi'i Gynllunio**

Cyflwynodd G Hughes yr adroddiad. Nododd yr aelodau mai'r prif ffocws oedd peidio â chael unrhyw gleifion yn aros dros bedair wythnos am apwyntiad claf allanol a nodwyd bod hyder y gellid cyflawni hyn ym mhob un ond pedwar



Heb eu Cadarnhau

maes arbenigol (Dermatoleg, Wroleg, Offthalmoleg a Chlust, Trwyn a'r Gwddf). Nododd yr aelodau fod y Bwrdd Iechyd wedi cychwyn Siwper Sadyrnau, gyda nifer o dimau clinigol yn gweithio ar benwythnosau i drin y mwyafrif helaeth o gleifion. Dywedodd G Hughes fod y mwyafrif helaeth o gleifion gyda'r arosiadau hiraf wedi gostwng yn sylweddol.

Diolchodd y Cadeirydd i G Hughes am drosolwg cynhwysfawr o'r gweithgaredd Adfer Gofal wedi'i Gynllunio.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**7.3 Gweithgor Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru – Adroddiad Cynnydd**

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymrwymiad a wnaed rhwng Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Caerdydd a'r Fro ac Aneurin Bevan i gydweithio, lle bo hynny'n glinigol briodol, ar draws Orthopedeg, Offthalmoleg a Diagnosteg.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch a oedd trigolion ardal Powys wedi'u cynnwys yn y rhaglen hon, dywedodd L Prosser, er nad oedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn aelodau o'r Bwrdd Goruchwylio, eu bod yn Aelodau o'r Grŵp Llywio lle'r oedd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch newidiadau mewn patrymau llif, gan gynnwys yn ardal Powys.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**7.4 Cynllun Tymor Canolig Integredig - Cynllunio ar gyfer 2023/2024**

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses a'r gofynion ar gyfer datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-2026. Nododd yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn rhaid i'r Bwrdd gymeradwyo'r cynllun erbyn diwedd mis Mawrth 2023 a nododd y byddai sesiwn Briffio ychwanegol ar gyfer y Bwrdd yn cael ei threfnu ar gyfer mis Ionawr 2023 i drafod y cynllun ymhellach.

Dywedodd P Mears fod y Gweinidog wedi dweud y byddai'r broses gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf yn haws, gyda thempledi symlach i'w cwblhau, a chroesawyd hynny. Dywedodd P Mears fod rhai heriau sylweddol o'n blaenau o hyd ac ychwanegodd y byddai angen rhywfaint o feddwl radical wrth ystyried y cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dywedodd J Sadgrove ei bod yn teimlo bod yr eglurhad ynghylch yr amserlen yn ddefnyddiol a chyfeiriodd at y diweddariad ar dudalen 5 yr adroddiad a oedd yn nodi y byddai'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgorau yn arfarnu'r cynllun drafft yn ystod mis Rhagfyr. Ychwanegodd J Sadgrove y gallai hyn fod yn

Heb Eu Cadarnhau

anodd gan nad oedd rhai Pwyllgorau i fod i gyfarfod ym mis Rhagfyr a dywedodd y byddai angen ystyried yr elfennau ansawdd a diogelwch yn y cynllun. Nododd L Prosser y sylw a dywedodd y byddai angen i'r holl drafodaethau ddod i ben ym mis Chwefror er mwyn gallu cyflwyno'r cynllun terfynol i'r Bwrdd ym mis Mawrth.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru yn debygol o ofyn i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno cynllun blynyddol yn hytrach na chynllun tair blynedd o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol, dywedodd L Prosser fod y Bwrdd Iechyd yn destun Monitro Uwch ar hyn o bryd ar gyfer y sefyllfa ariannol bresennol.

Diolchodd y Cadeirydd i L Prosser am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

Cam Gweithredu: Cynllun Tymor Canolig Integredig i'w ychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor a fydd yn cael eu cynnal yn ystod mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr a mis Chwefror 2023.

**7.5 Cynllun Tymor Canolig Integredig (Cynllun Blynyddol) – Diweddariad Chwarterol**

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad chwarterol ar y cynnydd yn erbyn Cynllun Blynyddol cyfredol y Bwrdd Iechyd. Nododd yr aelodau fod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud mewn rhai meysydd.

Diolchodd y Cadeirydd i L Prosser am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**7.6 Diweddariad ar y Cynllun Gaeaf**

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad cynlluniau gaeaf y Bwrdd Iechyd, a oedd yn ychwanegol at y newidiadau a'r gwelliannau a ddeilliodd o'r Raglen Gwella Chwe Nod. Nododd yr aelodau, ers i'r Bwrdd gael ei friffio ddiwethaf ar y cynllun ym mis Medi, bod £1.7m ychwanegol wedi cael ei glustnodi ar gyfer ei fuddsoddi mewn gweithgareddau ychwanegol.

Penderfyniad:

- **Cadarnhaodd** y Bwrdd gymeradwyaeth y tîm gweithredol i roi'r cynlluniau gwelyau ymchwydd blaenoriaethol ar waith er mwyn eu galluogi i ddod ar-lein yn llwyddiannus cyn y gaeaf;
- **Cymeradwyodd** y Bwrdd y gwaith o roi'r cynlluniau gwyrdd cysylltiedig blaenoriaethol ar waith a'u galluogi i gael eu cyflwyno'n llwyddiannus mewn pryd i gefnogi'r gwaith o wrthsefyll pwysau'r gaeaf;
- **Cadarnhaodd** y Bwrdd gymeradwyaeth y tîm gweithredol i weithredu'r gwasanaethau therapïau arfaethedig i ategu ymhellach y timau

Heb eu Cadarnhau

rhyddhau drws ffrynt integredig a hefyd i alluogi cynnig asesu eiddilwch acíwt ar dri safle ysbyty acíwt y bwrdd iechyd.

**8.** **Statws Uwchgyfeirio: Mesurau Arbennig ac Ymyriadau wedi'u Targedu**

**8.1** **Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol**

Cyflwynodd S Hardacre a S Davies yr adroddiad. Nododd yr aelodau fod y Bwrdd Iechyd bellach wedi derbyn y seithfed adroddiad cynnydd gan y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth a bod cyfarfod briffio wedi'i gynnal gyda'r staff ynghylch yr adroddiad, a bod nifer dda yn bresennol. Dywedodd S Davies fod y Tîm Gwasanaethau Newyddenedigol ar y trywydd iawn i gyflwyno'r pedwar uwchgyfeiriad uniongyrchol sydd ar ôl dros y misoedd nesaf ac ychwanegodd fod cynllun cadarn ar waith i gyflawni'r rhain.

Diolchodd J Sadgrove i S Hardacre a S Davies am gyflwyno'r adroddiad ac ychwanegodd fod trafodaethau manwl yn cael eu cynnal yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwella Gofal Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol mewn perthynas â'r Dangosfwrdd a oedd wedi cael ei ddatblygu a sut mae'r gwasanaeth yn parhau i wella. Cadarnhaodd J Sadgrove fod ffocws wedi'i dargedu yn parhau ar y meysydd gwella newyddenedigol sydd ar ôl ac ychwanegodd y byddai'n parhau i gynrychioli'r Bwrdd yn y prosesau hyn.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

**9** **UNRHYW FATER ARALL**

Ni nodwyd unrhyw feysydd busnes eraill.

**9.1** **Sut gwnaethom ni yn y cyfarfod hwn?**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n croesawu adborth gan Aelodau'r Bwrdd ynghylch sut roeddent yn teimlo yr aeth y cyfarfod heddiw y tu allan i'r cyfarfod.

**10** **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Iau 26 Ionawr 2023 am 10am.

**11** **DIWEDD Y CYFARFOD**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Bwrdd nawr yn cynnal Sesiwn Mewn Pwyllgor, a byddai'r canlyniad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2023.

Heb eu cadarnhau